Pecyn Cyhoeddus

Rhybudd o Benderfyniadau **Cyfarfod y Cabinet** a gynhaliwyd yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar **Ddydd Mawrth, 4 Hydref 2022**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5.00pm Dydd Iau, 6 Hydref 2022. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unrhyw benderfyniad i mewn yw 5.00pm Dydd Iau, 13 Hydref 2022 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) Dydd Gwener, 14 Hydref 2022

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Bryan Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Catrin M S. Davies, Clive Davies, Gareth Davies, Keith Henson, Wyn Thomas, Matthew Vaux ac Alun Williams.

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Euros Davies, Elizabeth Evans, Rhodri Evans a Siân Maehrlein.

(10.00am - 11.07am)

61 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorydd Keith Henson y byddai'n gadael y cyfarfod yn gynnar oherwydd ymrwymiadau eraill y Cyngor.

62 Materion Personol

i. Llongyfarchwyd Josh Tarling ar ennill aur yn nhreialon amser iau'r dynion ym Mhencampwriaethau Seiclo Ffordd y Byd UCI 2022 yn Wollongong.
ii. Llongyfarchwyd Sioned Harries ar gynrychioli Cymru yng Nghwpan Rygbi'r Byd i Ferched yn Seland Newydd y mis hwn.
iii. Dymunwyd yn dda i Sian Howys, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal ar ei hymddeoliad ar ddiwedd y mis. Diolchwyd iddi am ei holl waith rhagorol dros y blynyddoedd a dymunwyd yn dda iddi i'r dyfodol.

63 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu.

64 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny

Cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 6 Medi 2022 yn gywir.

Materion yn codi: Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.

65 Unrhyw ddeisebau a dderbyniwyd

Dim.

66 Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu

Dim.

67 Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda

Dim.

68 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ynghylch Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi - 'Siarad, Gwrando a Gweithio Gyda'n Gilydd' gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

PENDERFYNIAD:

i. Cymeradwyo'r Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi – 'Siarad, Gwrando a Gweithio Gyda'n Gilydd' yn amodol ar gynnwys sicrhau yr ymgysylltir â Chynghorau Cymuned (Atodiad A).
ii. Nodi'r adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Mae ein Polisi Ymgysylltu Cymunedol presennol yn dyddio o 2012 ac mae angen ei adolygu er mwyn ystyried dulliau newydd o ymgysylltu a deddfwriaeth a chanllawiau diweddar.

69 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Pobl a Threfniadaeth ynghylch Protocol Interim ar y cyd – Cyfraddau y Filltir

PENDERFYNIAD:
Cymeradwyo gweithredu'r Protocol Interim ar y cyd – Cyfraddau y Filltir mewn Awdurdodau Lleol yng Nghymru rhwng 1 Hydref 2022 a 31 Mawrth 2023.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Er mwyn mynd i'r afael â'r cynnydd sylweddol mewn costau tanwydd sy'n wynebu gweithwyr sy'n defnyddio eu cerbydau eu hunain i deithio ar fusnes fel rhan o'u dyletswyddau.

70 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal ynghylch Asesiad o Boblogaeth Gorllewin Cymru

PENDERFYNIAD:
Cymeradwyo'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth (Atodiad 1).

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Mae'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn ddogfen derfynol a gymeradwywyd drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

71 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal ynghylch Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yng Ngorllewin Cymru

PENDERFYNIAD:
Cymeradwyo'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad (Atodiad 1).

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Mae'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yn ddogfen derfynol a gymeradwywyd drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

72 **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ynghylch Cartrefi i Wcreiniaid: Canolfan Groeso**
Nodwyd yr adroddiad.

73 **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Adroddiad Diogelu Grwp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS Chwarter 4 2021-22**
Nodwyd yr adroddiad.

74 **Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Cabinet**
Dim.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar Ddydd Mawrth, 1 Tachwedd 2022

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol